# Adroddiad Arolygu

**Plantos Limited**

**Tŷ Wern Fawr**
**Eastern Business Park, Wern Fawr Lane**
**Llaneirwg**
**Caerdydd**
**CF3 5XA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

09/09/2022

## Ynglŷn â Plantos Limited

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Plantos Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 50 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Mehefin 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Crynodeb

*Roedd hwn yn arolygiad â ffocws, ac, ar yr achlysur hwn, gwnaethom ond ystyried llesiant ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn fanwl.*

Mae’r rhan fwyaf o'r plant yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad. Mae ganddynt berthynas gynnes â'r staff ac maent yn mwynhau cwmni eu ffrindiau. Mae ganddynt cyfleoedd da i ddatblygu eu hannibyniaeth trwy gymysg o chwarae agored a gweithgareddau â ffocws. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn effeithiol, ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae yna gyfleoedd ar gyfer staff i gwrdd â'r rheolwyr yn rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ymrwymo i ddatblygu'r lleoliad er mwyn gwella canlyniadau i’r plant.

## Llesiant

*Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.*

Mae’r plant yn gwneud dewisiadau ynghylch sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn gwybod y gallant gael mynediad at yr adnoddau sydd ar gael iddyn nhw. Mae'r plant yn mynegi eu barn yn rhydd ac mae pob ymgais i gyfathrebu yn cael ei werthfawrogi. Mae'r plant yn ymdopi'n dda â gwahanu oddi wrth rieni / rhoddwyr gofal oherwydd bod cyfnodau pontio dyddiol yn gyson, ac mae’r staff yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion unigol. Er enghraifft, mae plentyn newydd yn ymgartrefu trwy gael ei annog i chwarae â hoff degan. Mae’r plant sy'n teimlo’n ansefydlog yn cael eu cysuro'n gynnes.

Mae rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson dda ac mae'r plant yn cymryd rhan weithredol. Er enghraifft, wrth wneud toes chwarae ar thema gofod mewn gweithgaredd grŵp, mae'r plant yn aros eu tro i dipio'r blawd. Mae gan y plant ddiddordeb ac maent yn ymateb i gwestiynau a sylwadau gan oedolion a phlant eraill.

Mae’r plant yn datblygu eu hyder a'u hannibyniaeth drwy'r cyfleoedd a ddarperir. Mae'r plant hŷn yn bwyta eu brecwast yn annibynnol ac yn dilyn eu diddordebau yn ystod chwarae rhydd. Maent yn cydweithredu'n dda â'i gilydd ac yn cymryd rhan yn eu chwarae. Er enghraifft, gwelsom grŵp o blant yn rhannu cardiau ac yn hapus yn chwarae gêm gyda'i gilydd. Mae’r plant yn gyfathrebwyr hyderus, ac yn hapus yn mynd atom i sgwrsio am eu chwarae.

## Gofal a Datblygiad

*Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon.*

## Yr Amgylchedd

*Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon.*

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

*Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.*

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol yn y lleoliad. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r plant. Er enghraifft, mae'r staff yn defnyddio ffôn symudol y lleoliad wrth gludo plant i'r ysgol ac oddi yno yn unol â'u polisi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu â rheoleiddwyr AGC ac yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau arwyddocaol. Cedwir cofnodion mewn perthynas â'r hysbysiadau hyn; fodd bynnag, mae'r arweinwyr wedi nodi'r angen i ddatblygu system i gadw cofnodion cyfrinachol ac osgoi unrhyw fylchau mewn cyfathrebu. Mae'r system o gofnodi damweiniau/digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes yn gywir wedi bod yn faes i'w wella ar gyfer y lleoliad. O ganlyniad, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi darparu hyfforddiant yn ystod cyfarfodydd staff ac mae posteri gwybodaeth i'r staff yn cael eu harddangos o amgylch y lleoliad er mwyn gwella cysondeb o ran cofnodi'r rhain yn gywir. Trwy waith monitro trylwyr, mae'r arweinwyr wedi nodi rhai problemau gyda'r ap electronig ac yn gweithio i gywiro hyn.

Mae gan y lleoliad ddau reolwr sydd â chyfrifoldebau clir yn rheolaeth y lleoliad o ddydd i ddydd. Yn ddyddiol, mae un o'r rheolwyr yn uwchrifol ac nid yw'n cael ei gynnwys yn y cymarebau i ofalu am y plant. Mae'r staff yn cael arfarniadau unigol a chyfarfodydd goruchwylio rheolaidd gyda'r tîm rheoli. Maent yn derbyn holiadur cyn y cyfarfod er mwyn hwyluso trafodaeth. Mae cyfarfodydd staff wedi cael eu hailgyflwyno'n ddiweddar yn dilyn llacio rheoliadau COVID-19. Mae gan bob cyfarfod agenda sy'n cael ei rhannu o flaen llaw a chedwir cofnodion o'r cyfarfodydd. Mae diogelu a llesiant yn flaenoriaeth yn ystod y cyfarfodydd hyn. Mae'r rheolwyr yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn ymateb i'r blaenoriaethau sy'n codi. Mae'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth a ddyroddwyd yn yr arolygiad diwethaf o ran darparu gwybodaeth bellach ar gau.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 Ymgorffori system i gadw cofnodion cyfrinachol fel eu bod yn hawdd eu cyrchu.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 25/10/2022